



# Cynllun a chyllideb ennyn diddordeb defnyddwyr

2021

**Ynni  
Clyfar** GB  
Ymunwch â'r  
chwyldro tawel

Cyhoeddwyd 21<sup>ain</sup> Rhagfyr 2020

**[smartenergyGB.org/cy](https://smartenergyGB.org/cy)**

Ynni Clyfar GB  
1 Alfred Mews Llundain  
W1T 7AA

Swyddfa'r Alban  
110 George Street  
Caeredin  
EH2 4LH

Swyddfa Cymru  
Tŷ Sophia  
28 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd  
CF11 9LJ

Enw masnachu'r "Corff Cyfathrebu Mesuryddion Clyfar Cyfyngedig" yw "Ynni Clyfar GB. Dylid deall bod unrhyw gyfeiriadau yn y ddogfen hon at "Ynni Clyfar GB" neu "y cwmni" yn cyfeirio at y "Corff Cyfathrebu Mesuryddion Clyfar Cyfyngedig". Dylid tybio bod unrhyw gyfeiriadau yn Amodau Safonol y Trwyddedau Cyflenwi Nwy a Thrydan at y "Corff Cyflwyno Canolog" yn cyfeirio at "Ynni Clyfar GB" hefyd.

# Cynnwys

<b>1. Llywodraethu</b>	<b>4</b>
1.1 Bwrdd Ynni Clyfar GB	
1.2 Fforwm domestig y Fframwaith Rheoli Perfformiad (FfRhP)	
1.3 Fforwm annomestig y Fframwaith Rheoli Perfformiad (FfRhP)	
<b>2. Cyfeiriad strategol tan 2025</b>	<b>6</b>
2.1 Y strategaeth tymor hir i uchafu gosodiadau erbyn 2025	
2.2 Symud trwy gam gwirfoddol i gwblhau'r ymgyrch erbyn 2025	
2.3 Newid ymddygiad defnyddio	
2.4 Cwsmeriaid mewn amgylchiadau bregus (CIVCs)	
<b>3. Nodau'r FfRhP ar gyfer 2021</b>	<b>10</b>
3.1 Nodau ar gyfer yr ymgyrch ddomestig yn 2021	
3.2 Nodau ar gyfer yr ymgyrch annomestig	
<b>4. Goblygiadau ar gyfer gweithgareddau yn ymgyrch 2021</b>	<b>13</b>
4.1 Y ffocws ar osodiadau yn 2021	
4.2 Gweithgareddau i ysgogi newid ymddygiad defnyddwyr o ran defnyddio	
4.3 Cwsmeriaid mewn Amgylchiadau Bregus (CIVCs)	
4.4 Gweithgareddau peilot lleol ac ymgysylltu cydlynus	
4.5 Gweithgareddau cyfathrebu	
4.6 Costau staff a chostau cyffredinol	
4.7 Yr ymgyrch microfusnesau	
<b>5. Cyllideb 2021</b>	<b>21</b>
5.1 Y gyllideb ddomestig	
5.2 Y gyllideb annomestig 2021	

# 1. Llywodraethu

Mae bwrdd Ynni Clyfar GB yn falch o gyhoeddi ei gynllun a chyllideb ennyn diddordeb defnyddwyr ar gyfer 2021 sydd wedi ei gymeradwyo gan ei aelodaeth cyflenwyr ynni.

## 1.1 Bwrdd Ynni Clyfar GB

Mae strwythur Bwrdd Ynni Clyfar GB wedi'i ddisgrifio yn yr Amodau Safonol Cyflenwi Nwy a Thrydan, y Trwyddedau Dosbarthu Trydan a Chludo Nwy (sef "y trwyddedau cyflenwyr"). Cadeirir y Bwrdd gan Mark Lund OBE a'i aelodaeth ar 11 Tachwedd 2020 yw:

Wedi'u hethol gan, a chan gynrychioli, Cyflenwyr Perthnasol:

- Daren Carter
- Alexander Constanti
- Jill Dougan
- Richard Hughes
- Fiona Mayo
- Ed Tarelli

Wedi'u henwebu gan Gyngor ar Bopeth:

- Dhara Vyas
- James Taylor

Wedi'u hethol gan, a chan gynrychioli, Cyflenwyr Domestig Bach:

- Steven Day

Wedi'u hethol gan, a chan gynrychioli, Cyflenwyr Annomestig:

- Pamela Conway
- Andrew Green

Yn cynrychioli buddiannau defnyddwyr ynni:

- Penny Shepherd
- Chris MacLeod

## 1.2 Fforwm domestig y Fframwaith Rheoli Perfformiad (FfRhP)

Mae fforwm domestig y FfRhP o gyflenwyr perthnasol yn gyfrifol am bennu a chynnal y FfRhP o fetrigau a thargedau allweddol y mae gan Ynni Clyfar GB y dasg o gyflwyno yn eu herbyn ar gyfer ein hymgyrch ddomestig.

Gweinyddir fforwm domestig y FfRhP gan Energy UK ac fe'i cadeirir yn annibynnol gan Maxine Frerk. Mae ei aelodaeth yn gynrychiolwyr y cyflenwyr perthnasol. Gwahoddir Ofgem a BEIS i anfon cynrychiolydd i gyfarfodydd y fforwm FfRhP i arsylwi trafodion.

Mae gan Fwrdd Ynni Clyfar GB gyfrifoldeb dros sicrhau ei fod yn goruchwyllo ymgyrch a gweithrediadau Ynni Clyfar GB, a bod Ynni Clyfar GB yn cyflwyno'n effeithlon ac yn effeithiol yn erbyn ei amcanion. Gan hynny, mae wedi adolygu'r gyllideb gysylltiedig i sicrhau ei fod yn briodol o ran cwrdd â'r her a bennwyd gan fforwm y FfRhP trwy'r targedau ar gyfer 2021.

Mae'r Bwrdd wedi cydweithio'n agos â fforwm y FfRhP yn ystod y cyfnod cynllunio. Bu Maxine Frerk yn fynychai rheolaidd cyfarfodydd Bwrdd Ynni Clyfar GB.

### 1.3 Fforwm annomestig y Fframwaith Rheoli Perfformiad (FfRhP)

Mae fforwm annomestig y FfRhP o gyflenwyr perthnasol yn gyfrifol am bennu a chynnal y FfRhP o fetrigau a thargedau allweddol y mae gan Ynni Clyfar GB y dasg o gyflwyno yn eu herbyn ar gyfer yr ymgyrch annomestig.

Gweinyddir fforwm annomestig y FfRhP gan Energy UK ac fe'i cadeirir yn annibynnol gan Maxine Frerk. Y cyflenwyr sy'n aelodau fforwm y FfRhP yw:

- British Gas
- EDF
- E.ON
- Npower
- Opus
- SSE
- Scottish Power
- Total

Gwahoddir Ofgem a BEIS i anfon cynrychiolydd i gyfarfodydd fforwm annomestig y FfRhP i arsylwi trafodion.

Mae gan Fwrdd Ynni Clyfar GB gyfrifoldeb dros sicrhau ei fod yn goruchwyllo ymgyrch a gweithrediadau Ynni Clyfar GB, a bod Ynni Clyfar GB yn cyflwyno'n effeithlon ac yn effeithiol yn erbyn ei amcanion. Gan hynny, mae wedi adolygu'r cynllun gweithgareddau a chyllideb gysylltiedig i sicrhau ei fod yn briodol o ran cwrdd â'r her a bennwyd gan fforwm annomestig y FfRhP trwy'r nodau ar gyfer 2021.

## 2. Cyfeiriad strategol tan 2025

### 2.1 Y strategaeth tymor hir i uchafu gosodiadau erbyn 2025

Yn ystod 2020, cysylltodd Ynni Clyfar GB â 23 o sefydliadau budd-ddeiliaid gydag amrywiaeth o gwestiynau am ddyfodol yr ymgyrch a rhan Ynni Clyfar GB ynddi. Atebodd 18 o sefydliadau, gan ddatgelu consensws ar draws nifer o feysydd:

- Disgwylir i Covid-19 amharu ar gyfraddau gosodiadau i mewn i 2021
- Dylid glynu wrth y tybiaethau technegol o fewn Cyd-Gynllun y Diwydiant (er ei fod yn cael ei baratoi i fod yn hyblyg)
- Dylai Ynni Clyfar GB barhau i gefnogi'r ymgyrch microfusnesau
- Byddai'n briodol i Ynni Clyfar GB ganolbwyntio'n fwy ar gynulleidfaoedd sy'n agored i niwed
- Byddai'n briodol i Ynni Clyfar GB ganolbwyntio'n fwy ar newid ymddygiad defnyddio
- Dylai Ynni Clyfar GB chwarae rôl mewn mentrau ar draws y diwydiant yn y dyfodol (fel y Cynllun Peilot yn Derby)

Rhoddodd hyn eglurder ar y cyfeiriad strategol ar gyfer y meysydd a nodir uchod. Y meysydd mawrion lle bu gwahaniaeth o ran barn oedd mewn perthynas â therfynau cam gwirfoddol yr ymgyrch ddomestig a pha ysgogiadau polisi y dylid eu defnyddio i ysgogi galw pan fydd cofrestru gwirfoddol yn arafu (y 'cam ysgogiad polisi').

Gan gymryd barn o'r ymgyngoriad hwnnw ar faint y cam gwirfoddol a'r defnydd o 'gromliniau S' safonol, bu i ni ragamcanu dwy senario'n seiliedig ar gyrraedd treiddiad naill ai 55 y cant neu 65 y cant fel dwy senario dangosol (gan gynrychioli dau bwynt ymysg amrywiaeth o adborth gan fudd-ddeiliaid ar ba mor bell y gallai'r cam gwirfoddol fynd). Cyrhaeddodd y senario 55 y cant ei derfyn gwirfoddol ar ddiwedd 2021, a'r senario 65 y cant ei derfyn bron blwyddyn yn ddiweddarach yn hydref 2022.

*Y casgliad allweddol yw y dylid cyflwyno cynllun a chyllideb ennyn diddordeb Ynni Clyfar GB ar gyfer 2021 o fewn cyd-destun gwirfoddol.*


### 2.2 Symud trwy gam gwirfoddol i gwblhau'r ymgyrch erbyn 2025

O'r adeg y cyrhaeddir y gyfradd redeg frig ym mhob senario uchod, ceir cyfnod rhwng 6 ac 13 mis cyn y cyrhaeddir terfyn disgwylidig y cam gwirfoddol. Bydd adnabod yn gynnar pa gromlin wirfoddol y mae'r ymgyrch arni, ac am faint mae'r brig yn parhau, yn bwysig at ddibenion cynllunio.

Y metrig delfrydol ar gyfer tracio cynnydd fyddai cost fesul gosodiad. Mae'n annhebygol o gael ei gyflawni fel dangosydd cadarn felly, fel y dewis gorau nesaf, bydd gosodiadau wythnosol yn cael eu tracio'n agos a phan fydd dirywiad cyfartalog mewn gosodiadau dros unrhyw gyfnod o wyth wythnos AC y bo cyfradd ddirywio sy'n cyflymu (fel sy'n nodweddiadol mewn cromlin gloch), byddwn yn tybio ein bod ar y gromlin i lawr oni bai bod ffactorau arwyddocaol eraill ar waith, fel cyfnodau clo pellach.

Bydd agweddau gofyn am/derbyn yn parhau i gael eu monitro ynghyd â data econometrig megis argaeledd meddyliol ac ymholiadau, yn ogystal â'n holl fewnwelediadau arall. Bydd yr holl ddata perthnasol yn cael ei adrodd yn brydlon i'r Bwrdd, fforwm y FfRHP a budd-ddeiliaid eraill wrth iddo gael ei ddarparu ynghyd â dangosyddion yr ymgyrch megis y rhai ynglŷn â sylw, mwynhad, perthnasedd, cofio a mynd â negeseuon i ffwrdd (gweler isod am eisiampol o fformat crynodeb adroddiad).

## EisiampI o fformat crynodeb adroddiad




- \* DS mae Gofyn am/Derbyn yn fetrig llif canolig amgen i ymholiadau a ddefnyddir fel DPA y FfRhP. Ni chaiff ei ymgorffori i fodolu oherwydd diffyg tuedd hanesyddol ac anweddolrwydd samplu ar y traciwr wythnosol. Mae ymholiadau ar gael dim ond fel mynegai felly nid yw'n addas ar gyfer pennu targedau sefydliadol ehangach neu i'w defnyddio fel DPA y FfRhP
- \*\* Does dim cymharydd ar gael ar gyfer Tynnu sylw neu Fwynhad
- ^ Dim ond y neges a ysgogir o'r frig sy'n cael ei dangos gan fod y safle graddio'n ddangosydd allweddol o gryfder mynd â'r neges i ffwrdd wrth ochr lefel ddilysu absoliwt
- ^^ Mae data mynd â'r neges i ffwrdd yn ddigymell ar gael dim ond ar sail fisol

Wrth i'r ymgyrch ddod allan o'r cam gwirfoddol, bydd angen ysgogiadau rheoleiddio a heb ymwneud â rheoleiddio er mwyn i ni gyrraedd mor agos at 100 y cant â phosib. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys asesiad o pryd y dylid cyflwyno'r fath ysgogiadau. I gyfeirio'r dull hwnnw, mae Ynni Clyfar GB wedi comisiynu Dectech i adolygu'r ysgogiadau rheoleiddio a heb ymwneud â rheoleiddio ac i ba raddau y gellir defnyddio nhw i fwyafu cofrestru rhwng nawr a 2025. Disgwylir i'r gwaith ddod i ben yn y gaef.

### 2.3 Newid ymddygiad defnyddio

Yn hanesyddol, mae ein hymgyrchoedd sy'n canolbwyntio ar osodiadau wedi cyflwyno effaith eurgylch ar ein DPA Defnyddio\*. Yn 2021, rydym yn disgwyl i'n hymgyrchoedd gosodiad barhau i gael eu harwain gan negeseuon am fuddion, ac felly rydym yn disgwyl i'r ymgyrchoedd hyn roi eurgylch ar ddefnyddio hefyd.

#### Effaith pt% ar sylw yn y cyfryngau a chyfryngau y telir amdanynt a symbylir gan y DPA Defnyddio:



\*Y DPA Defnyddio a ddefnyddir mewn Econometreg yw “Rwy’n rheoli faint o ynni a ddefnyddiaf o gwmpas fy nghartref yn weithredol”


Maer gosodiad yn ysgogi ymgysylltu â'r data mesuryddion clyfar, ac yn darparu cyfle i brofi ac ymwreiddio ymddygiadau rheoli ynni newydd.

Rhwng 2021-25 bydd y prif naratif yn symud i reoli ynni, gan siarad â'r sylfaen osodiadau am fuddion, ond mae cyfathrebu'n cael ei gipglywed gan y rhai nad ydynt yn gwsmeriaid o ran effaith eurgylch ar gofrestrïadau.

Er y bydd y symudiad cymharol yn tyfu dros amser wrth i fabwysiadu godi ymhellach, bydd yr ymgyrch yn 2021 yn amlygu rhai buddion defnyddio allweddol sydd hefyd yn ymwneud ag ysgogi cofrestrïadau.



## Ffocws y naratif cyfathrebu i'r gynulleidfa PF prif ffrwd:



### Fframwaith Cyfathrebu

SYNIAD YR YMGYRCH Y CHWYLDRO TAWEL						
AMCAN YR YMGYRCH Symbylu gofyn am a derbyn trwy ddangos sut mae mesuryddion clyfar yn galluogi dyfodol disgleiriach a chlyfrach i Brydain						
BUDDION						
MAES Y BUDDION	Prydain	Yr amgylchedd	Technolegau newydd	Cwsmeriaid rhagdal	Chi a'ch teulu	Eich busnes
RTBs (I'w gadarnhau)	Mae mesuryddion clyfar yn helpu gwella gallu system ynni hen ffasiwn Prydain i fodloni gofynion yr 21 <sup>st</sup> ganrif	Bydd mesuryddion clyfar yn helpu chi i wneud eich rhan dros yr amgylchedd, gan helpu Prydain i gyrraedd ei hôl troed carbon sero net	Bydd mesuryddion clyfar yn helpu galluogi technolegau newydd fel derbyn cerbydau trydan neu offer clyfar ar sail dorfol	Mae mesuryddion clyfar yn galluogi pobl ar draws Prydain i ychwanegu credyd o bell.	Mae mesuryddion clyfar yn helpu miliynau ar draws Prydain i ostwng eu defnydd o ynni ac arbed arian.	Ar draws Prydain, mae mesuryddion clyfar yn rhoi mwy o reolaeth i fusnesau dros eu biliau ynni.
SIANELAU (I'w gadarnhau)	TV, OLV, Print, Radio, Cymdeithasol, PR	Teledu, Cymdeithasol, OLV, Print	Cymdeithasol, OLV, Print	OLV, Print/Radio, Partneriaethau, Cymdeithasol	Cymdeithasol, OLV, Print, Radio	Print/Radio, Partneriaethau, Cymdeithasol

Wrth edrych tua'r dyfodol, disgwylir i'r amcan yn y maes hwn gael ei ehangu o "Gynyddu parodrwydd Defnyddwyr Ynni i ddefnyddio Systemau Mesuryddion Clyfar i newid eu hymddygiad er mwyn iddynt ostwng eu defnydd o ynni" i "Gynyddu parodrwydd Defnyddwyr Ynni i ddefnyddio Systemau Mesuryddion Clyfar i newid eu hymddygiad i alluogi nhw i reoli eu defnydd o ynni'n fwy effeithiol ac effeithlon". Mae gweithgareddau ennyn diddordeb ar gyfer 2021 yn cadw'r newid ffocws hwn mewn cof wrth barhau i ganolbwyntio ar osodiadau mesuryddion clyfar.

### 2.4 Cwsmeriaid mewn amgylchiadau bregus (CIVCS)

Mae ein hymagwedd at CIVCS yn adeiladu ar ein gwaith yn y cyhoeddiad o 2015, Ynni clyfar i bawb. Ar sail yr ymchwil hon, mae 21 o grwpiau gyda nodweddion sy'n debygol o greu rhwystrau ar hyd y daith mesurydd clyfar y gallai fod rôl gan Ynni Clyfar GB i'w taclu. O'r rhain, mae angen i ni ganolbwyntio ar y rhai sy'n cael eu gadael allan.

Mae'r Rhagolwg ynni clyfar yn dangos bod yna rhai cynulleidfaoedd sy'n cael eu gadael allan. Mae 'incwm isel' yn tanfynegeio ar gyfer gofyn

am/derbyn (29%), ac mae'r bwlch mwyaf i'w weld ymysg y rhai 'heb fynediad personol i'r rhyngwrwyd' (13% (o'i gymharu â 35% ar gyfer holl oedolion PF)). At hynny, mae llawer o gynulleidfaoedd sydd â rhwystrau personol nad ydynt yn rhai corfforol yn gorfynegeio ar ddiffyg ymwybyddiaeth, ac yn tanfynegeio ar berchnogaeth a gofyn am/derbyn.

Amlygodd adolygiad o ymchwil trydydd parti heriau/cyfleoedd ychwanegol yn y ddau gategori hwn:

- Gallai gofawyr (h.y. ffrindiau a theulu) fod yn sianel effeithiol ar gyfer ennyn diddordeb y cynulleidfaoedd hyn
- Mae'n bosib y bydd angen esboniad pellach o broses y gosodiad
- Gallai fod angen ymwybyddiaeth gynyddol o'r IHD Hygyrch ar rai
- Pwysigrwydd bod ar y Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth (PSR)

Mae'r dull o ymdrin â'r heriau hyn, gan gynnwys cyfathrebu â'r ddau is-demograffig yn 2021, wedi'i amlinellu yn [adran 4](#).

## 3. Nodau'r FfRhP ar gyfer 2021

### 3.1 Nodau ar gyfer yr ymgyrch ddomestig yn 2021

Mae fforwm Domestig y FfRhP wedi rhoi dehongliad clir i Ynni Clyfar GB o fetrigau a thargedau'r Fframwaith Rheoli Perfformiad ynghyd â disgwyliad clir o'r tasgau sydd i'w cyflwyno yn 2021.

Darparwyd yr amcanion a metrigau ar gyfer 2021, sydd wedi'u manylu isod, ar y ddealltwriaeth ein bod mewn hinsawdd ansicr iawn ar hyn o bryd. Gan hynny, bydd hyblygrwydd yn hollbwysig; bydd medru ymaddasu i'r hinsawdd allanol ac wrth ymateb i fewnwelediad i'n hymgyrch ein hunain a'r farchnad yn hollbwysig.

#### Metrigau FfRhP domestig ar gyfer Ynni Clyfar GB yn 2021

Maes	Metrig	Gwaelodlin Diwedd H-2 2020	Targed
Gofyn am/ Derbyn	1. Gofyn am/derbyn (oedolion PF)	I'w bennu gan y <i>Rhagolwg ynni clyfar</i> a gyflawnwyd gan Yonder yn Nhachwedd 2020	<i>Canran cynnal neu wella</i>
Gwrthod	2. Gwrthodwyr (oedolion PF)	I'w bennu gan y <i>Rhagolwg ynni clyfar</i> a gyflawnwyd gan Yonder yn Nhachwedd 2020	<i>Gostwng niferoedd absoliwt</i>
Agwedd Is- demograffegau	3. cf. 1-2 ar gyfer oedolion Incwm Isel, Rhagdalu ac Oddi Ar-lein	I'w bennu gan y <i>Rhagolwg ynni clyfar</i> a gyflawnwyd gan Yonder yn Nhachwedd 2020	<i>Monitro – cynnal y ganran gofyn am/derbyn rhagdalu</i>
Metrig gwerth am arian	4. Asesiad annibynnol o werth am arian prisiau cyfryngau y telir amdanynt	I'w bennu gan archwiliad annibynnol a gynhaliwyd gan MediaSense ar ddiwedd 2020	A: ardderchog
Metrigau PR	5. Canran oedolion PF sy'n cofio gweld neu glywed unrhyw newyddion, erthyglau neu ddarnau barn am fesuryddion clyfar yn ddiweddar sy'n datgan ei fod wedi peri iddynt deimlo'n fwy positif am fesuryddion clyfar	I'w bennu gan ymchwil annibynnol Hall & Partners gan ddefnyddio cyfartaledd Ch4 2020	Cynnal neu wella
	6. Cyfanswm argraffau cyfryngau a enillir sy'n cynnwys negeseuon cadarnhaol wedi'u gosod gan Ynni Clyfar GB am fesuryddion clyfar	I'w feintioli gan ymchwil annibynnol Echo Research	Cynnal neu wella

Maes	Metrig	Gwaelodlin Diwedd H-2 2020	Targed
Metrigau defnyddio	7. Poblogaeth glyfar gyda nodweddion clyfar sy'n adrodd "Rwy'n rheoli faint o ynni a ddefnyddiaf o gwmpas fy nghartref yn weithredol"	I'w feintio gan y <i>Traciwr defnyddio mesuryddion clyfar</i> a gyflawnwyd gan Yonder yn Nhachwedd 2020	<i>Cynnal neu wella</i>
	8. Poblogaeth glyfar gyda nodweddion clyfar sy'n adrodd am "lawer iawn o wahaniaeth/tipyn o wahaniaeth" wrth ateb "Pa wahaniaeth, os o gwbl, ydy cael mesurydd clyfar wedi'i wneud i sut rydych yn defnyddio ynni adref?"	I'w bennu gan y <i>Rhagolwg ynni clyfar</i> a gyflawnwyd gan Yonder yn Nhachwedd 2020	<i>Cynnal neu wella</i>
Gosodiadau	9. Cyfradd redeg wythnosol dreigl o osodiadau mesurydd clyfar (gan ddefnyddio mesuryddion trydan fel procsi aelwyd)	I'w bennu gan osodiadau mesuryddion trydan yn ôl <i>Electralink</i> , gan ddefnyddio cyfartaledd C4 2020	<i>Monitro</i>
Argaeledd Meddyliol	10. Crybwyll mesuryddion clyfar yn ddigymell yn 1af fel 'cynnyrch neu wasanaeth sy'n eich helpu i reoli'ch defnydd o ynni yn yr aelwyd' (oedolion PF)	I'w bennu gan ymchwil annibynnol <i>Hall &amp; Partners</i> gan ddefnyddio cyfartaledd Ch4 2020	<i>Monitro</i>
Ymholiadau	11. Chwiliadau Google am wybodaeth bositif ar fesuryddion clyfar, gan gynnwys sut i gael un (ds. Mesur seiliedig ar fynegai)	I'w bennu gan ddata Google gan ddefnyddio cyfartaledd Ch4 2020	<i>Monitro</i>
Parodrwydd	12. Poblogaeth heb fesuryddion clyfar sy'n barod iawn/weddol barod i ganiatáu i rywun yn eu cartref i osod mesurydd clyfar	I'w bennu gan ymchwil annibynnol <i>Hall &amp; Partners</i> gan ddefnyddio cyfartaledd Ch4 2020	<i>Monitro</i>

### 3.2 Nodau ar gyfer yr ymgyrch annomestig

Ar 29 Medi 2020, ystyriodd cyflenwyr ynni yn fforwm annomestig y FfRhP y strategaeth ymgyrch a chynllun ymgyrch annomestig drafft fel a gyflwynwyd gan Ynni Clyfar GB, a thrafodwyd eu safbwyntiau ar yr heriau allweddol i'r ymgyrch microfusnesau, ac felly bwriad y grŵp ynglŷn â nodau'r ymgyrch yn 2021.

Yn sgil y cyfarfod hwnnw, mae Cadeirydd fforwm annomestig y FfRhP wedi ysgrifennu at Ynni Clyfar GB i gadarnhau y bu consensws ymysg y cyflenwyr yn fforwm annomestig y FfRhP ar y nodau priodol ar gyfer ymgyrch Ynni Clyfar GB yn 2021. Mae'r gyllideb sy'n destun y penderfyniad hwn yn adlewyrchu'r consensws hwnnw a'r drafodaeth yng nghyfarfod fforwm y FfRhP ar 29 Medi.

Ar yr un pryd, mae fforwm y FfRhP wedi cadarnhau i Ynni Clyfar GB y bydd y cyflenwyr, o ran monitro perfformiad yn 2021, eisiau tracio:

Ymysg microfusnesau sydd wedi'u lleoli mewn adeiladau:

- lefelau ymwybyddiaeth y gobeithiant y byddant yn uwch na lefelau cyfredol bod mesuryddion clyfar ar gael i fusnesau; a
- lefelau gofyn am/derbyn y gobeithiant y byddant yn uwch na lefelau cyfredol


Bydd lefelau gosodiadau cyffredinol yn cael eu tracio hefyd gan fod y rhain yn adlewyrchu'r nod terfynol y mae'r holl bartion yn gweithio tuag atynt.

## 4. Goblygiadau ar gyfer gweithgareddau yn ymgyrch 2021

### 4.1 Y ffocws ar osodiadau yn 2021

Mae lefel y gosodiadau a ragamcanir ar gyfer 2021 sy'n deillio o'r model econometrig yn 2.1m. Mae hyn yn cynnwys estyniad i newid barn yn sylweddol - mae'n rhaid i'r gyfradd newid barn o gronfa'r rhai sy'n gofyn gynyddu 50 y cant, gyda chynnydd 33 y cant gan dderbynwyr a 25 y cant gan y rhai sy'n ddifater neu'n wrthodwyr.

Nododd yr wybodaeth ddiweddaraf o ymarfer llif y cyflenwyr fod lefel y gosodiadau a ddymunir yn 2021 yn 2.7m (ar ôl addasu ar gyfer tuedd ymatebwyr). Mae hyn yn cynrychioli bwlch arwyddocaol o'r rhagamcaniad a ddeilliwyd o'r model econometrig, ond mae'n fwllch y mae angen i gyflenwyr ac Ynni Clyfar GB anelu at ei gau.




I helpu cau'r bwlch hwnnw, rydym yn disgwyl gweld tri phrif welliant:

- Cyflenwyr i wella eu cyflawniad gweithredol i fwyafu newid barn trwy hanner isaf y llif
- Mae Ynni Clyfar GB yn cynllunio amrywiaeth o newidiadau sylweddol i'w weithgareddau ymgyrch a fydd yn symbylu effeithiolrwydd marchnata cynyddol (DS. Yn amodol ar y pandemig).
- Bydd Ynni Clyfar GB yn symbylu mesurau effeithlonrwydd o fewn y gyllideb trwy symud cyllideb bresennol o weithgareddau sydd â llai o flaenoriaeth i weithgareddau sy'n effeithio fwyaf ar lefel y gosodiadau (yn enwedig prynu cyfryngau) - yn ogystal â galluogi ni i fuddsoddi mwy mewn CIVCs, defnyddio a gweithgarwch peilot lleol.

## Ymgyrch Ynni Clyfar GB

Er mwyn cynyddu effeithiolrwydd ein hymgyrchoedd, rydym yn bwriadu lansio byd brand newydd a syniad creadigol mawr newydd yn 2021 (bydd yr amseru'n ddiybennol ar y pandemig a deilliannau o'r ymgyrch bresennol), y gobeithiwn y byddant yn parhau am nifer o flynyddoedd. Maent yn adeiladu ar rai o'r themâu sydd eisoes wedi cael eu datblygu ar gyfer Y Chwyldro Tawel:



Rydym yn bwriadu lansio lleoliad tymor hir newydd yn seiliedig ar rôl mesuryddion clyfar ym mhedwerydd chwyldro Prydain: "Y Chwyldro Ynni". Bydd brandio newydd a llinell olaf newydd yn atgyfnerthu hyn yn yr holl gyfathrebiadau.

Mae'r Chwyldro Tawel yn cynnwys cnewyllyn syniad y gallwn adeiladu lleoliad newydd arno. Mae bwa mawr cynnydd diwydiannol Prydain yn mynd o'r chwyldroadau diwydiannol a digidol i'r "Chwyldro Ynni" heddiw. Rydym eisiau adeiladu a siapio'r naratif cynyddol hwn, a sut mae mesuryddion clyfar yn ffordd syml a hawdd o alluogi'r dyfodol hwn.



*Gan y rhagamcanir i'r angen am drydan ddyblu erbyn 2050,*

*a gydag anghenraid byd-eang i gyrraedd sero-net, nid yw'r ffordd yr ydym yn rheoli ynni erioed wedi bod yn bwysicach.*

*Mae angen system ynni arnom a all ddatgloi dyfodol gwyrddach a disgleiriach i Brydain.*

*Un sy'n rhoi mwy o reolaeth i bawb dros eu cartrefi a busnesau.*

*Ac un a all helpu gwireddu addewid technoleg.*

*Y newyddion da yw bod y chwyldro sydd ei angen eisoes wedi dechrau: Mesuryddion Clyfar.*

*Cael mesurydd clyfar yw eich ffordd glyfar chi o ymuno â chwyldro ynni Prydain*

### **Byd brand newydd**

Bydd hyn yn trosi i logo, byd dylunio a llinell olaf newydd a fydd yn lleoli brand mesuryddion clyfar sy'n fwy o ran maint, mwy disglair, mwy modern a mwy o ran effaith yn 2021.

### **Llwyfan greadigol**

Mae'r adborth cynnar anecdotaidd a chan gyfryngau cymdeithasol ar yr ymgyrch bresennol, Y Chwyldro Tawel, a ddyluniwyd wrth ymateb i Covid, yn bositif. Ein tybiaeth weithredol gyfredol yw y bydd yr ymgyrch hon yn parhau trwy gydol Ch1 2021, gan optimeiddio'r asedau presennol wrth i fwy o ganlyniadau gael eu cyhoeddi.

Datblygwyd ymgyrch greadigol newydd cyn Covid nad oedd yn addas i'w gweithredu yn yr hinsawdd Covid yn 2021. Rydym wrthi'n datblygu'r ymgyrch hon ymhellach gan fod rhesymau cryfion dros gredu y gallai fod yn ysgogydd gosodiadau mwy effeithiol byth na'r Chwyldro Tawel, yn ogystal â bod yn gyfrwng i negeseuon amrywiol eraill yr ymgyrch dros y blynyddoedd i ddod.

Bydd amseriad lansio unrhyw weithgaredd ymgyrch newydd yn dibynnu ar sut mae'r pandemig yn datblygu. Er enghraifft, os bydd amodau iechyd cyhoeddus a pharodrwydd defnyddwyr i gael gosodiad mesurydd clyfar ill dau wedi gwella rhywbryd yn 2021, gallai'r ymgyrch greadigol newydd ddarparu'r ymchwydd ymgyrch y bydd ei angen i ailgychwyn yr ymgyrch.

Bydd y dull newydd yn galluogi i'r fframwaith cyfathrebiadau gael ei gyflwyno mewn ymgyrch sianelau lluosog.

### **Hyblygrwydd**

Mae'n rhaid i holl weithgareddau ein hymgyrch fod yn hyblyg yn 2021, er mwyn ymateb i fewnwelediad o'n hymgyrch ond hefyd wrth ymateb i'r byd dan effaith Covid.

Gyda hinsawdd mor newidiol ar gyfer yr ymgyrch, bydd yn parhau'n allweddol i ymgynghori ar draws y diwydiant mewn ffordd sy'n ymgysylltu ac yn hysbysu.

Gan hynny, bydd ymgynghori a rhannu gwybodaeth allweddol yn parhau gyda:

- Bwrdd Ynni Clyfar GB
- Fforwm y FfRhP
- Y pwyllgor marchnata a chyfathrebu
- Trafodaethau RWG
- Trafodaethau SMDG
- Partneriaid Ynni Clyfar GB a chyflenwyr

Bydd data allweddol a ffynonellau gwybodaeth yn cael eu parhau hefyd:

- Tracio Covid-19 a mesuryddion clyfar, gan gynnwys metrig 'parodrwydd i gael gosodiad'
- Tracio ymgyrch Ynni Clyfar GB
- Data cyflenwyr ar drefnu gosodiadau a chapasiti
- Monitro achosion swyddogol o Covid-19 etc.

Mae ein cynllun cyfryngau integredig wedi cael ei ddylunio gyda'r hyblygrwydd mwyaf mewn cof, o ran cynyddu graddfa cyfryngau i gydfynd â'r capasiti am osodiadau, ond hefyd i fedru gohirio / oedi / canslo gweithgareddau. Adeiledir rheolaeth risg barhaus ar dair egwyddor, oll mewn sgysiau parhaus gyda'r diwydiant trwy RWG a'n fforymau marchnata:

1) ) Rhestr wirio cyn-gychwyn cyn ymrwymadau yn y cyfryngau
Lefel rhybudd y llywodraeth
Achosion dyddiol wedi'u cadarnhau etc.
Gosodiadau cyflenwyr a thaflybr capasiti sy'n parhau'n wastad neu'n tyfu
Mae gennym gynllun lliniaru clir ar y ffordd orau i ni ohirio, amrywio neu ganslo prynu cyfryngau
Rydym yn gallu rhyddhau cyllideb mewn rhandaliadau synhwylol i gydbwyso effeithlonrwydd prynu â risg.

2) Blaenoriaethu hyblygrwydd a cyfryngu ar ein rhwymedigaethau yn ein dull o brynu	
Sianel	Beth ydym ni'n ei wneud i gyfyngu ar ein rhwymedigaethau?
Teledu	Wedi'i gymeradwyo ar derfyn amser AB ond rydym wedi cyd-drafod hawl i ohiriad gwerth eithriadol i mewn i 2021 (gydag isafswm cosb) os bydd cyfnod clo sy'n dileu 'argaeledd ffisegol ein cynnyrch' h.y. mae'r ymgyrch yn stopio
Fideo Digidol (VOD)	Gellir stopio gweithgarwch YouTube unrhyw bryd heb unrhyw gost Cymeradwyir gweithgareddau VOD darlledwyr mewn rhandaliadau
Print	Cymeradwyir gweithgareddau print mewn rhandaliadau
Radio	Cymeradwyir gweithgareddau radio mewn rhandaliadau
Cymdeithasol	Gellir stopio gweithgarwch cymdeithasol unrhyw bryd heb unrhyw gost

3) Paratoi i addasu creadigol gyda galwadau i weithredu (CTA) sy'n addas ar gyfer aflonyddwch i'r cyflenwad o ganlyniad i Covid yn y dyfodol
Opsiw 1 MEDDALU CTA yr ystyriaeth ymgyrch 'Ymunwch â'r Chwyldro Tawel'. Felly dim 'gofynnwch i'ch cyflenwr ynni...'
Opsiw 2 CYMHWYSO argaeledd ac annog cofrestru diddordeb. 'Cofrestrwch am fesurydd clyfar gyda'ch cyflenwr ynni'. (byddai angen cydsyniad cyffredinol gan gyflenwyr, sy'n destun ymchwilio).
Opsiw 3 CYMHWYSO gweithredu pan ddaw normalrwydd yn ôl 'Gofynnwch i'ch cyflenwr ynni am osodiadau mesurydd clyfar yn y dyfodol'.

#### 4.2 Gweithgareddau i ysgogi newid ymddygiad defnyddwyr o ran defnyddio

Yng ngoleuni'r newid disgwylidig i'r amcan yn y maes hwn, rydym wedi ailystyried gweithgarwch penodol yn 2021 i gefnogi a mwyafu'r eurgylch disgwylidig o'r brif ymgyrch. Yn benodol, byddwn yn ceisio adeiladu ar dystiolaeth ynglŷn â sut mae'r IHD yn gatalydd i weithredu ac i ba raddau mwyaf y gellir manteisio arni i ymwreiddio ac estyn gweithredoedd cwsmeriaid. Wrth geisio estyn ymgysylltu â'r data mesuryddion clyfar byddai hyn yn achlysur cyntaf delfrydol i ystyried:

- A fyddai swyddogaeth ddatblygedig trwy'r IHD yn rhoi hwb i reoli ynni ymddygiadau i isafu'r baich ar gwsmeriaid i fod yn 'dditectif ynni'. Dyma rywbeth a allai gael ei archwilio ymhellach fel prosiect traws-ddiwydiant.
- Yn ail, mae cyflenwyr sydd â mynediad i ddata defnyddio ynni ar lefel y cwsmer yn y sefyllfa orau i roi ysgogiadau ymddygiadol perthnasol ac amserol yn seiliedig ar batrymau defnyddio. Ond, heb ddolenni adborth rhwng yr IHD a'r cyflenwr.

Fe fydd yn gymhleth i wireddu gwelliannau i galedwedd/meddalwedd profiad IHD y cwsmer, a pharth y cyflenwr ynni yw data IHD, a'i effaith ar y defnydd o ynni yn y cartref. Felly, y gwelliant gorau ei werth o weithgarwch Ynni Clyfar GB fydd cefnogi'r cwsmer wrth ddod o hyd i'w ffordd trwy'r broses 'ditectif ynni' honno. Naill ai ar adeg y gosodiad neu ar bwynt perchnogaeth dilynol.



Ac yntau wedi'i gyfeirio gan yr adolygiad hwnnw, bydd Ynni Clyfar GB yn cyflwyno'r gweithgaredd a ganlyn yn 2021 i gefnogi'r amcan defnyddio:

1. Creu taflenni addysgol a llawn ysbrydoliaeth i gyflenwyr eu cynnwys mewn pecynnau gosodiad, yn ddefnyddol wedi'u brandio ar y cyd gyda sefydliadau adnabyddus ac uchel ei barch megis Cyngor ar Bopeth / yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, National Energy Action.
2. Fideos cyfryngau cymdeithasol addysgol a llawn ysbrydoliaeth gyda gwariant wedi'i dargedu ar gyfuniad o lefelau perchnogaeth, cylchrannau sy'n nodi lefelau defnyddio is ac/ neu ymddygiad gwylio sy'n nodi diddordeb mewn rheoli ynni. Byddai'r rhain yn cael eu gwsteia ar wefan Ynni Clyfar GB, wedi'u cefnogi gan dalu-fesul-clic (PPC) i gyrraedd pobl sy'n chwilio am wybodaeth gysylltiedig.
3. Mae ymchwil yn dangos y bydd angen cefnogaeth bellach ar CIVCs i newid ymddygiad, fodd bynnag mae perchnogaeth yn parhau'n is na chyfartaledd PF. Gan hynny, ni argymhellir gweithgarwch allgymorth partneriaeth ar newid ymddygiad/defnyddio ar y pwynt yma.

- Fodd bynnag, er mwyn gwneud asedau'n hygyrch i CIVCs, i'w defnyddio nid yn unig gan gyflenwyr ond gan bartneriaid hefyd, bydd yr asedau craidd hyn yn cael eu trosi i amrywiaeth o fformatau amgen.
- At hynny, bydd yr holl bartneriaid rhanbarthol yn mynychu hyfforddiant a fydd yn cynnwys gwybodaeth am ddefnyddio. Bydd yr hyfforddiant hwn, wedi'i gefnogi gan yr asedau, yn galluogi partneriaid rhanbarthol i ymdrin â defnyddio, pan fo'n briodol gwneud hynny gyda'u cleientiaid.

Y buddsoddiad ar gyfer 2021 yw c.£500,000, a disgwylir y bydd yr asedau a grëir yn 2021 yn parhau i gael eu defnyddio mewn blynyddoedd dilynol, er gyda diweddariadau i gymryd arloesiadau diweddaraf y farchnad i ystyriaeth. Yr argraffau disgwyliedig yn 2021 ar gyfer y fideos ar-lein fyddai c.105m o argraffau dros gyfnod o 12 mis.

### 4.3 Cwsmeriaid mewn Amgylchiadau Bregus (CIVCs)

Fel a ddisgrifiwyd uchod, y strategaeth yw sicrhau nad yw CIVCs yn cael eu gadael allan. Ar gyfer 2021, mae hyn yn golygu targedu is-demograffegau incwm isel a chynulleidfaoedd oddi ar-lein gyda gweithgareddau atodol. Bydd angen ymdrin â'r heriau strategol a nodwyd uchod hefyd. Felly, gan gymryd hyn oll i ystyriaeth, mae'r dull wedi'i grynhai.

- **Oddi ar-lein:** Partneriaethau fydd y sianel arweiniol i dargedu ac ennyn diddordeb y gynulleidfa ar-lein o dros 6.3m. Defnyddir PR i fwyhau ac estyn negeseuon yr ymgyrch.
- **Incwm isel:** mae 81 y cant o ddefnyddwyr incwm isel ar-lein (6.91m) felly byddwn yn rhedeg strategaeth digidol yn gyntaf flaengar i dargedu'r gynulleidfa hon ac yn ennyn diddordeb oddi ar-lein i gydweddu â hyn, wedi'i gyflwyno'n bennaf trwy bartneriaethau.
- **Targedir cwsmeriaid rhagdal** (7m) trwy'r ymgyrch ddomestig graidd.
- **Gofalwyr:** Estyn y dull newydd; dod o hyd i lwybrau i mewn i gynulleidfaoedd lluosog trwy ymgyrch sianelau lluosog sy'n targedu gofalwyr. Profi defnydd arloesol o ddigidol.
- At hynny: Ymgyrch PR arwr sy'n targedu ar draws y cynulleidfaoedd. Gweithgarwch i godi ymwybyddiaeth o'r **IHD Hygyrch** a **PSR**, ac esboniad pellach o broses y gosodiad gan bartneriaid.

I gyflwyno hyn, bydd 2021 yn gweld cynnydd mewn buddsoddiad i ennyn diddordeb CIVCs. Bydd buddsoddiad mewn gweithgarwch sy'n targedu CIVCs yn codi o £832k yn 2019, i £2.1m yn 2020 a £4.4m yn 2021. Yn y dyfodol rydym yn rhagweld cynyddu cyfran y cyfanswm buddsoddiad tuag at y cynulleidfaoedd hyn i sicrhau nad ydynt yn cael eu gadael allan o'r ymgyrch.

Bydd mwy o bartneriaethau 'Mewn Cymunedau' lleol yn cael eu gweithredu. Bydd yr holl weithgarwch partneriaethau wedi'i ffocysu ar gwsmeriaid mewn amgylchiadau bregus. Cyflenwir y gyllideb fwyaf ar gyfer CIVCs yn bennaf trwy symud gwariant o bartneriaethau brand cenedlaethol, yr ydym yn dod â nhw i ben yn 2021.

Bydd £1.65m o wariant ar gyfryngau/ cynhyrchu yn 2021 yn cael ei ddyrannu i negeseuon rhagdal (i fyny o £1.04m yn 2020). Dyletswydd ddwbl fydd hwn, gan gyflwyno negeseuon perthnasol i gynulleidfa sylweddol o CIVCs yn ogystal ag ennyn diddordeb cwsmeriaid domestig ehangach.

Bydd dulliau arloesol yn cael eu gweithredu yn y defnydd o ddigidol y telir amdano hefyd. Gan ddefnyddio dull profi a dysgu i sicrhau effeithlonrwydd a mwyafu ymgysylltu.

Mae ffocws arweinyddiaeth cynyddol gyda'r cynulleidfaoedd hyn yn cael ei ymwreiddio yn ein strwythurau sefydliadol a gwneud penderfyniadau, yn enwedig trwy aelod penodedig newydd o'r uwch dîm arweinyddiaeth ar gyfer CIVCs.

#### 4.4 Gweithgareddau peilot lleol ac ymgysylltu cydlynus

##### Y peilot lleol

Bwriedir i'r peilot lleol yn Derby, a ohiriwyd yn 2020 o ganlyniad i'r Coronafeirws, ddigwydd yn H1 2021. Bydd Ynni Clyfar GB yn chwarae rôl weithredol yng ngweithgor y peilot lleol fel o'r blaen, bydd yn cyflwyno gweithgareddau ennyn diddordeb defnyddwyr ar draws Derby ac mewn ardaloedd ymyrraeth hyper-leol penodol, fel yn 2020, bydd hefyd yn gyfrifol am gyllido rheolwr y prosiect a gwerthuso'r peilot.

Fel yn 2020, rydym wedi neilltuo cyllideb ar gyfer cynllun peilot Derby (£750k o'i gymharu â £900k yn 2020, yn seiliedig ar ddysgu o lefelau gwariant a ragamcanwyd ar gyfer 2020.)

Yn seiliedig ar drafodaethau gyda'r gweithgor, rhagwelir y caiff y gweithgareddau sydd wedi'u cynnwys yng nghynllun peilot 2021 Derby eu hestyn o'i gymharu â chwmpas 2020 mewn dwy ardal, y mae Ynni Clyfar GB wrthi'n cwblhau'r cylch gwaith a'r amcanion ar eu cyfer gyda'r Gweithgor:

1. Bu mynegiad o ddiddordeb i gynnwys gweithgareddau microfusnes ym mheilot Derby 2021. Disgwylir defnyddio sianelau wedi'u targedu nad ydynt yn seiliedig ar hysbysebu er mwyn bod yn gymesur â maint y gronfa o ddarparu gwsmeriaid i symbylu ymwybyddiaeth yn eu plith.
2. Bu mynegiad o ddiddordeb i estyn y gweithgarwch partneriaeth i gynnwys mwy o weithgareddau sicrwydd ar gyfer CIVCs y mae angen mwy o sicrwydd unigol arnynt cyn ymrwymo i gael gosodiad. Ni ddisgwylir i'r gweithgarwch hwn ymestyn i gynllun cymorth uniongyrchol sy'n darparu cymorth un i un 'ar adeg y gosodiad'.

##### Gweithgareddau ennyn diddordeb defnyddwyr cydlynus

Yn 2021, mae Ynni Clyfar GB yn ymrwymedig i gefnogi'r diwydiant mewn trafodaethau ynglŷn â sut y gellir cyflwyno nodau'r ymgyrch yn llwyddiannus erbyn 2025, a sicrhau bod strategaeth Ynni Clyfar GB wedi'i halinio i'r nodau terfynol hynny. Mae prosiect y cynllun tymor hir sy'n cael ei gynnal yn H2 2020 yn rhan o hyn, fodd bynnag gan ddilyn y prosiect hwnnw rydym yn rhagweld y bydd prosiectau tebyg sydd â'r nod o gyfeirio'r ymgyrch a strategaeth Ynni Clyfar GB.

Mae hymgyngoriad BEIS ar gylch gwaith Ynni Clyfar GB yn 2021-25 yn cynnig amcan newydd o:

“sefydlu a chynnal fframwaith gweinyddol ar gyfer hwyluso cydlynu gweithgareddau ennyn diddordeb defnyddwyr mewn perthynas â Systemau Mesuryddion Clyfar a gyflawnir (neu y bwriedir y cânt eu cyflawni) gan Gyflenwyr Ynni unigol”

Bydd Ynni Clyfar GB yn asesu'r anghenion yn llawn o ran cyflwyno yn erbyn hyn yn seiliedig ar yr ymateb a gyhoeddir i'r ymgynghoriad. Wrth ragweld y mentrau y mae'n debygol yr ymgwymerir â nhw i gyflawni'r amcan newydd hwn, teimlwn ei fod yn ddarbodus i adnabod cyllideb o £300k.

##### 4.5 Gweithgareddau cyfathrebu

Bydd yr adran gyfathrebu'n parhau i gyflwyno swyddogaeth PR ragweithiol ac adweithiol, gan gydweithio â theitlau a newyddiadurwyr i redeg ymgyrchoedd PR a rheoli'r amgylchedd newyddion. Byddwn yn parhau i redeg ymgyrchoedd rhagweithiol i symbylu diddordeb mewn mesuryddion clyfar ac i symbylu gosodiadau. Caiff y gwaith hwn ei gydlynu gyda lansiad unrhyw ymgyrch newydd yn ystod y flwyddyn. Bydd y tîm newyddion ymatebol yn parhau i redeg fel swyddogaeth 247, gan ymateb i ymholiadau wrth iddynt ddod i mewn. Bydd yn parhau i gydweithio â chyflenwyr a budd-ddeiliaid eraill pan fydd ymateb cydlynus yn fanteisiol. Mae'r gyllideb a ddyrannir i hyn yn 2021 yn is nac yn 2020 oherwydd gostyngiad mewn ffioedd asiantaeth (disgwylir i'r lefel weithgarwch fod yn gyson yn fras o flwyddyn i flwyddyn.)

Bydd ein gwaith materion corfforaethol ehangach yn parhau yn 2021; ennyn diddordeb budd-ddeiliaid a dangos arweinyddiaeth meddwl sydd yn y pen draw yn cefnogi'r derbynriad o fesuryddion clyfar. Un prosiect penodol y bydd yn canolbwyntio arno yw cynyddu gosodiadau ymysg rhentwyr preifat. Prif amcan yr hyn o beth yw cyflawni ymyrraeth/ymyraethau polisi sy'n dileu rhwystrau i osodiadau yn y sector rhentu preifat ac, ochr yn ochr â hyn, cynyddu ymwybyddiaeth ymysg rhentwyr a landlordiaid o ran hawl y rhai sy'n talu'r biliau i gael gosodiad mesurydd clyfar, gan arwain at ymchwydd mewn cofrestradau gan rentwyr os na chyflwynir newidiadau polisi.

Bydd yr adran gyfathrebu'n parhau i fod yn gyfrifol am berthnasoedd gyda chyflenwyr. Wrth fynd i mewn i 2021, a chan gymryd i ystyriaeth yr ansicrwydd sy'n rhan ohoni, bydd hyn yn ystyriaeth allweddol.

#### 4.6 Costau staff a chostau cyffredinol

Mae'n flaenoriaeth ar gyfer 2021 i isafu costau staff a chostau cyffredinol a thrwy hynny mwyafu buddsoddiad mewn gweithgareddau a all symbylu gosodiadau. Rydym wedi adnabod arbedion mewn costau staff a chostau cyffredinol eraill i'r graddau bod y gyllideb costau gweithredu sefydlog yn 2021 wedi'i gostwng 9 y cant o flwyddyn i flwyddyn.

Mae'r costau staff yng nghyllideb 2021 wedi gostwng 5 y cant o flwyddyn i flwyddyn. Mae hyn yn dilyn ailstrwythuro yn 2020 a ddileodd gostau a swyddi yn y sefydliad (tybiodd cyllideb 2020 79 CaALL ar draws y sefydliad o'i gymharu â chyllideb 2021 sydd wedi gweld y sefydliad yn gostwng i 69 CaALL.)

Mae'r gyllideb ar gyfer costau staff yn cynnwys dyraniad ar gyfer cynnydd chwyddiant staff. Ein polisi tâl trwy'r amser oedd parhau'n gystadleuol heb fod yn ormodol a thrwy hynny dangos gwerth am arian. Wrth bennu'r cynnydd tâl priodol ar gyfer tîm y staff bob blwyddyn, rydym wedi comisiynu ymgynghorydd allanol i ddarparu dangosyddion o beth y gallai'r cynnydd fod i weddu i'r polisi hwnnw. Mae'r dangosyddion hyn yn gysylltiedig â chwyddiant (1.6% ar gyfer CPI) yn ogystal â'r cynnydd y mae sectorau perthnasol (2% ar gyfer ynni a 3% ar gyfer y cyfryngau) yn bwriadu eu cyflwyno. Yn seiliedig ar y gwaith hwnnw, rydym yn cynnig cynnydd chwyddiant o 1.8% (sef hanner ffordd rhwng chwyddiant a'r sector cymaradwy isaf). Rydym yn disgwyl y caiff y cynnydd hwnnw ei gyllido gan drosiant naturiol ymysg y tîm staff yn 2021 (h.y. swyddi dros dro).

Mae cyllideb 2021 yn cynnwys arbedion ar draws llinellau cefnogaeth eraill. Mae hyn yn bennaf gan i ni dybio y bydd costau rhedeg swyddfeydd, teithio etc yn is o ganlyniad i Covid. Y tu hwnt i hynny, rydym wrthi'n adolygu opsiynau arbed costau ein swyddfa yn Llundain ond mae'r rhain yn annhebygol o ddod i effaith yn faterol tan 2022.

#### 4.7 Yr ymgyrch microfusnesau

Rhagwelwyd y byddai 2020 yn flwyddyn allweddol i brofi'r defnydd o ymgyrch microfusnesau wedi'i thargedu, a fyddai'n bwydo'n uniongyrchol i mewn i gynllunio ar gyfer 2021. Gan i'r ymgyrch gael ei gohirio o ganlyniad i'r pandemig Covid-19, gwthiwyd gweithrediad ymgyrch microfusnesau Ynni Clyfar GB yn ôl i Ch4 (ar raddfa, cyflwynwyd ymgyrch PR yn Ch3 i gefnogi ailgychwyn gosodiadau).

Mae Ynni Clyfar GB wedi bod, ac yn parhau, yn ymrwymedig i ddull profi a dysgu. Er bod y cynllun gweithgareddau a amlinellir yn y ddogfen hon yn cynrychioli ein hargymhelliad gwybodus ar y cyd ar y pwynt yma, caiff y cynlluniau eu mireinio ymhellach yn rhan gyntaf 2021 yn seiliedig ar asesiad o berfformiad yr ymgyrch Ch4, ac felly mae'n bosib y bydd negeseuon neu sianelau cymharol yn cael eu hail-alinio i ryw raddau'n unol â hynny.

Wrth bennu'r argymhelliad hwn ar gyfer gweithgarwch 2021, datblygwyd tair egwyddor graidd ac fe'u cymhwyswyd yn seiliedig ar adborth gan gyflenwyr, a datblygiad yr ymgyrch yn 2020;

1. Cael ei dargedu er mwyn mwyafu cyfleoedd i gefnogi'r ymgyrch
2. Bod yn gymesur o ran buddsoddi yng ngraddfa'r dasg
3. Ysgogi'r ymgyrch ddomestig pan fo'n berthnasol

#### Y dasg a gweithgareddau microfusnes deilliannol yn 2021

Bydd gweithgareddau Ynni Clyfar GB yn canolbwyntio ar ennyn diddordeb microfusnesau a leolir ar eu safleoedd eu hunain. Bydd busnesau sydd wedi'u lleoli mewn cartrefi'n tueddu i gael contract cyflenwi ynni domestig ac felly yn destun y cyflwyniad ac ymgyrch ddomestig.

Ymysg microfusnesau sydd wedi'u lleoli ar eu safleoedd eu hunain, mae ymwybyddiaeth y gallant fod ar eu hennill trwy fesuryddion clyfar yn parhau'n sylweddol is nag ymysg cwsmeriaid domestig. Gan hynny, prif nod gweithgareddau Ynni Clyfar GB fydd codi'r ymwybyddiaeth hon, gyda'r rhagolwg y bydd Gofyn am/Derbyn yn cynyddu hefyd, gan ddarparu cronfa gwsmeriaid ag agwedd bositif y gall cyflenwyr ynni drefnu gosodiadau â nhw.

Mae'r ymarfer llif cyflenwyr diweddar yn nodi bwriad ar ran cyflenwyr i wneud gosodiadau ar gyfer tua 158,000 o ficrofusnesau. Ni chynhaliwyd ymarfer llif ffurfiol yn 2019, fodd bynnag tybiwyd y byddai hyn yn cynrychioli cynnydd o'i gymharu â'r cynlluniau gwreiddiol ar gyfer 2020.

Er mwyn cefnogi'r ymgyrch i symud ymlaen yn unol ag uchelgeisiau cyflenwyr o ran gosodiadau, bydd Ynni Clyfar GB yn gweithredu ymgyrch sianelau lluosog a dargedir at microfusnesau ar eu safleoedd eu hunain, gan amlygu argaeledd a buddion mesuryddion clyfar ar eu cyfer. Bydd hyn yn cynnwys gweithgareddau ymgyrch ar draws y wasg fasnach, radio, cyfryngau cymdeithasol, PR, partneriaethau, digidol a materion cyhoeddus. Fel a nodwyd uchod, bydd y pwysoli rhwng sianelau'n seiliedig ar ddysgu o 2020 ac ymgyrchoedd eraill o ran effeithlonrwydd sianelau wrth ennyn diddordeb y gynulleidfa.


Fel yn 2020, rhagwelir y bydd y gweithgareddau hyn yn defnyddio cymysgedd o weithgareddau a dargedir i siarad â sectorau microfusnes allweddol penodol, wedi'u cefnogi gan weithgareddau cyffredinol ar draws microfusnesau. Bydd yr ymgyrhaeddiad o gyfryngau prif ffrwd o fewn y cynllun hwn (gwasg fasnach, radio a chyfryngau cymdeithasol) yn 53% @ amllder 5.3. Mae'r buddsoddiad ar gyfer y gweithgaredd craidd hwn yn cyfateb i'r cynllun 2020 gwreiddiol.

Bydd fframwaith yr ymgyrch wedi'i alinio i'r ymgyrch ddomestig. Er i ymchwil ddangos ei fod yn bwysig cyfathrebu â microfusnesau yn eu lleoliad busnes a gyda negeseuon sy'n benodol i fusnesau, mae Ynni Clyfar GB yn cydnabod y bydd cwsmeriaid microfusnesau'n ymwneud â'r ymgyrch ddomestig fel cwsmeriaid domestig hefyd. Fel yn 2020, bydd yr ymgyrch microfusnesau a'r ymgyrchoedd domestig ill dau'n seiliedig ar fframwaith cyfathrebu cyson, gan ddarparu hinsawdd ymgyrchu gyfannol.

## 5. Cyllideb 2021

### 5.1 Y gyllideb ddomestig

Nod allweddol ar gyfer cyllideb 2021 oedd mwyafu buddsoddi mewn gweithgareddau sy'n cyfathrebu'n uniongyrchol â defnyddwyr a thrwy hynny, yn symblu gosodiadau. Ar gyfer 2021, rydym wedi gostwng costau mewn nifer o feysydd nad ydynt yn ymwneud â defnyddwyr, megis gwariant ar asiantaethau, mewnwelediad, costau staff a chostau cyffredinol. Mae hyn wedi galluogi i ni gynyddu buddsoddiad mewn rhoi negeseuon o flaen defnyddwyr, yn bennaf prynu cyfryngau:



### Effeithlonrwydd cyllideb

- Partneriaethau cenedlaethol (£1.7m):** Yn hanesyddol, defnyddiom bartneriaethau cenedlaethol i ymdrin â her y gwrthodwyr. Rydym yn credu ei fod yn well defnyddio'r cyllid hwn trwy fuddsoddi mewn ymdrin â chwsmeriaid sydd mewn amgylchiadau bregus yn uniongyrchol.
- Gwariant ar asiantaethau (£0.8m):** Y prif ostyngiad yw symud o fodel asiantaeth PR gadw i fodel rhestr. Hefyd, mae costau allanol is i gefnogi swyddfa'r wasg ar ôl ailstrwythuro'r tîm i greu adnodd mewnol ehangach. Gostyngir ffioedd asiantaeth greadigol hefyd, er eu bod wedi'u hallosod trwy gynydd mewn comisiwn prynu cyfryngau.
- Staff a hyfforddiant (£0.3m):** Mae'r gostyngiad yn deillio o nifer is o staff, costau hyfforddi is i gyfateb i'r angen. Mae'n cynnwys targed arbedion o fewn y flwyddyn sy'n deillio o swyddi gwag.
- Mewnwelediad (£0.3m):** Daw'r gostyngiad o ailgaffael ein tracwyr mawr a'u cydgrynhoi i un darparwr ynghyd â gwneud rhai gweithgareddau'n fewnol.
- Costau rhedeg eraill (£0.4m):** Costau rhedeg is sy'n deillio o'r cyfnod clo (e.e. costau rhedeg swyddfeydd, teithio a chynhaliadau is) yn ogystal â dibrisio is

## Buddsoddiadau'r gyllideb

- **Prynu cyfryngau domestig (£1.7m):** Y nod yw mwyafu nifer y gosodiadau ar gyfer 2021 a hefyd adeiladu'r effaith tymor hir i mewn i 2022 a'r tu hwnt. Yn cynnwys cynnydd o £0.5m i gefnogi'r ymgyrch defnyddio.
- **Gweithgarwch partneriaeth CIVC y (£1.4m):** Cynnydd sy'n targedu cwsmeriaid mewn amgylchiadau bregus gan gynnwys yr ymgyrch rhagdal
- **Ymgyrchoedd PR (£0.3m):** Mae gweithgarwch PR yn symblu gofyn am/derbyn felly mae'r buddsoddiad hwn yn cefnogi nod yr ymgyrchoedd craidd trwy fwyafu buddsoddiad mewn ymgyrchoedd defnyddwyr
- **Mentrau peilot lleol ac ar draws cyflenwyr (£0.2m):** Mae costau'r peilot lleol wedi gostwng £150k. Mae hyn wedi'i allosod gan gyllidebu buddsoddiad ychwanegol o £300k ar gyfer prosiect(au) pellach sy'n ofynnol gennym i gyflwyno mentrau a fydd yn cefnogi'r amcan o gydlynu gweithgareddau ennyn diddordeb defnyddwyr

Mae Bwrdd Ynni Clyfar GB yn cydnabod pwysigrwydd gwerth am arian ar draws holl weithrediadau'r cwmni. I sicrhau gwneud ein gorau i fwyafu effeithiolrwydd ein gwariant ac isafu gwastraff, rydym yn cymhwyso model gwerth am arian y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) fel sail i egwyddorion cynllunio cyllidebu. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi cyhoeddi manylion ei model gwerth am arian ar ei gwefan.

Mae'r cyfanswm cyllideb ar gyfer 2021 o £36.6m, wedi'i thorri i lawr i'r gyllideb gyfalaf ddomestig o £29.4m a'r cyfraniad domestig i gostau gweithredu sefydlog o £7.2m.

Mae'r gyllideb ddomestig yn gweddu i'r gyllideb ddangosol a gyflwynwyd i fforwm y FfRhP pan fuont adolygu a chytuno ar y nodau ar gyfer 2021.

	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4	CYLLIDEB 2021	CYLLIDEB 2020	AMRYWIAD £	AMRYWIAD %	NODIADAU
Datblygu creadigol	750,000	750,000	750,000	750,000	3,000,000	3,000,000	-	0%	1
Prynu cyfryngau domestig gan gynnwys digidol	6,998,997	3,525,562	4,959,258	3,541,643	19,025,460	17,358,999	1,666,461	10%	2
Partneriaethau Marchnata	1,014,775	376,275	135,275	563,775	2,090,100	2,487,000	(396,900)	-16%	3
<b>Cyfanswm marchnata</b>	<b>8,763,772</b>	<b>4,651,837</b>	<b>5,844,533</b>	<b>4,855,418</b>	<b>24,115,560</b>	22,845,999	1,269,561	6%	
Materion Cyhoeddus	49,750	56,750	26,500	43,000	<b>176,000</b>	191,000	(15,000)	-8%	4
Polisi	21,500	33,500	1,500	3,500	<b>60,000</b>	66,000	(6,000)	-9%	5
PR	648,871	600,871	580,871	582,671	<b>2,413,284</b>	2,850,000	(436,716)	-15%	6
<b>Cyfanswm cyfathrebu</b>	<b>720,121</b>	<b>691,121</b>	<b>608,871</b>	<b>629,171</b>	<b>2,649,284</b>	3,107,000	(457,716)	-15%	
Mewnwelediad	638,250	248,250	432,250	307,250	<b>1,626,000</b>	1,900,000	(274,000)	-14%	7
Datblygu strategaeth a threialon ennyn diddordeb cydlynus (gan gynnwys y peilot lleol)	1,050,000	0	0	0	<b>1,050,000</b>	900,000	150,000	17%	8
<b>Cyfanswm strategaeth a mewnwelediad</b>	<b>1,688,250</b>	<b>248,250</b>	<b>432,250</b>	<b>307,250</b>	<b>2,676,000</b>	<b>2,800,000</b>	<b>(124,000)</b>	<b>2%</b>	
<b>Cyfanswm costau cyfalaf</b>	<b>11,172,143</b>	<b>5,591,208</b>	<b>6,885,654</b>	<b>5,791,839</b>	<b>29,440,844</b>	<b>28,752,999</b>	<b>687,845</b>	<b>2%</b>	
Costau staff (gan gynnwys YG a phensiwn)	1,191,240	1,219,186	1,242,976	1,424,659	<b>5,078,061</b>	5,342,991	(264,931)	-5%	9
Hyfforddi a datblygu	39,474	50,477	36,477	39,479	<b>165,907</b>	283,008	(117,101)	-41%	10

...yn parhau ar y dudalen nesaf...

	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4	CYLLIDEB 2021	CYLLIDEB 2020	AMRYWIAD £	AMRYWIAD %	NODIADAU
Costau rhedeg adeiladau a swyddfeydd	593,585	500,738	290,786	(19,112)	<b>1,365,997</b>	1,496,967	(130,970)	-9%	11
Teithio a chynhaliath	19,950	19,950	19,950	46,950	<b>106,800</b>	184,796	(77,996)	-42%	12
TGCh	225,698	60,955	42,596	25,347	<b>354,596</b>	354,862	(266)	0%	13
Costau cyllid eraill	107,990	142,274	72,635	84,069	<b>406,968</b>	555,378	(148,410)	-27%	14
Dyraniad microfusnesau	(105,570)	(119,850)	(23,970)	(30,090)	<b>(279,480)</b>	(306,000)	26,520	-9%	15
<b>Cyfanswm costau gweithredu sefydlog</b>	<b>2,072,367</b>	<b>1,873,730</b>	<b>1,681,450</b>	<b>1,571,301</b>	<b>7,198,848</b>	<b>7,912,002</b>	<b>(713,154)</b>	<b>-9%</b>	
<b>Cyfanswm Ynni Clyfar GB</b>	<b>13,244,509</b>	<b>7,464,938</b>	<b>8,567,104</b>	<b>7,363,140</b>	<b>36,639,691</b>	<b>36,665,000</b>	<b>(25,309)</b>	<b>0%</b>	



**Nodiadau i'r gyllideb ddomestig:****Costau cyfalaf**

1. **Datblygu creadigol:** mae hyn yn cynnwys ffioedd asiantaethau creadigol a chostau cynhyrchu. Mae'r gyllideb wedi'i chynnal yn unol â chyllideb y flwyddyn flaenorol.
2. **Prynu cyfryngau domestig gan g. digidol:** yn cynnwys yr holl gostau a ffioedd asiantaeth cysylltiedig â chomisiynu cynllunio a phrynu gofod cyfryngau mewn sianelau cyfryngau eiddo'r cwmni ac y telir amdanynt. Mae'r cynnydd o ganlyniad i ailddyrrannu costau i fwyafu gosodiadau yn 2021.
3. **Partneriaethau Marchnata:** costau gan gynnwys cyllid a drosglwyddir yn uniongyrchol i sefydliadau partner (fel elusennau, grwpiau cymunedol a brandiau) y mae eu hangen ar gyfer cynllunio, datblygu a chynhyrchu partneriaethau marchnata. Noder, y tu hwnt i'r mesurau effeithlonrwydd mewn partneriaethau cenedlaethol a buddsoddiad mewn CIVCs a nodwyd uchod, bu cynnydd yn y dyraniad o'r gyllideb bartneriaethau i'r ymgyrch rhagdalau (o fewn y llinell prynu cyfryngau).
4. **Materion Cyhoeddus:** yn cynnwys yr holl gostau sy'n gysylltiedig ag adeiladu gwybodaeth ac eiriolaeth ymysg gwleidyddion, busnesau a budd-ddeiliaid yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, gan gynnwys cefnogaeth asiantaeth ac offer y mae ei angen i reoli gohebiaeth gyhoeddus.
5. **Polisi:** yn cynnwys yr holl gostau sy'n gysylltiedig â gwaith arwain meddwl, gan gynnwys cynhyrchu tystiolaeth ac ymchwil polisi, a digwyddiadau dilynol.
6. **PR:** yn cynnwys yr holl gostau sy'n gysylltiedig â rheoli newyddion yn adweithiol a bod yn ymatebol, gan gynnwys cefnogaeth gan asiantaethau, offer monitro cyfryngau a thanysgrifiadau yn ogystal â chostau gysylltiedig â gweithredu ymgyrchoedd PR defnyddwyr rhagweithiol, gan gynnwys cefnogaeth a ffioedd asiantaeth, costau doniau ac eirioli, ymchwil at ddibenion PR rhagweithiol, ysgrifennu copi a darlunio, cynhyrchu asedau ffotograffiaeth a chlyweled/sain. Bu gostyngiad mewn ffioedd asiantaeth wrth i ni symud i sail rhestr.
7. **Mewnwelediad:** yn cynnwys yr holl gostau a ffioedd gofynnol ar gyfer cynllunio, comisiynu, cynnal a dadansoddi ymchwil at ddibenion mewnwelediad i ennyn diddordeb defnyddwyr,

mesur ac optimeiddio, a gwerthuso, fel a ddisgrifir yn y papur hwn. Mae'r gostyngiad yn deillio'n rhannol o ymdrin â rhai cyfrifoldebau'n fewnol ac yn rhannol o gydgrynhoi ein tracwyr fel un traciwr am gost is.

8. **Datblygu strategaeth a threialon ennyn diddordeb cydlynus:** costau cyflwyno'r peilot lleol yn Derby ynghyd â dyraniad i gefnogi treialon ennyn diddordeb defnyddwyr cydlynus.

**Costau gweithredu sefydlog**

9. **Costau staff:** yn cynnwys yr holl gostau staff uniongyrchol ac anuniongyrchol gan gynnwys cyflogau, yswiriant gwladol, cyfraniadau pensiwn, recriwtio a rhai buddion staff anuniongyrchol. Bu gostyngiad yn nifer y staff yn y sefydliad o 79 i 69 rhwng y ddwy gyllideb gan ddilyn mesurau effeithlonrwydd, cau swyddi agored ac ailstrwythuro yn 2020.
10. **Hyfforddi a datblygu:** yn cynnwys holl gostau hyfforddi a datblygu'r sefydliad gan gynnwys hyfforddiant un i un, hyfforddiant grŵp a chyfarfodydd cynllunio mewnol.
11. **Costau rhedeg adeiladau a swyddfeydd:** yn cynnwys rhent, trethi a thaliadau gwasanaeth ein tair swyddfa yn Llundain, Caerdydd a Chaeredin. Mae'r costau rhedeg cysylltiedig (o argraffu a phostio i lanhau a chynnal a chadw cyffredinol) wedi'u cynnwys hefyd. Rydym yn tybio y bydd costau rhedeg yn is wrth i COVID barhau i amharu ar arferion gweithio yn 2021.
12. **Teithio a chynhaliadau:** y costau teithio a threuliau byw cysylltiedig pan fydd ein staff yn gorfod gweithio i ffwrdd o'u prif weithle ar weithgareddau Ynni Clyfar GB. Eto, rydym yn disgwyl llai o deithio o ganlyniad i aflonyddwch gyda COVID yn 2021.
13. **TGCh:** yn cynnwys costau cefnogi TG, costau isadeiledd, trwyddedau (ar gyfer meddalwedd, storio a diogelwch) a chostau rhwydwaith.
14. **Costau cyllid eraill:** yn cynnwys costau ein ffioedd archwilio allanol a'n ffioedd cadw cyfrifon wedi'u hallanoli, yswiriant a chostau cyfreithiol, treth a darpariaeth ar gyfer drwgddyled. Mae'r gostyngiad o ganlyniad i ostyngiad yn y tâl dibrisio wrth i eitemau cyfalaf gael eu dibrisio'n llawn.
15. **Dyraniad microfusnesau:** dyma ddyraniad i gefnogi'r ymgyrch microfusnesau gyda chostau cyffredinol yn cael eu hailgodi'n gymesur yn uniongyrchol â chostau cyfalaf.

**5.2 Y gyllideb annomestig 2021**

Mae'r cyfanswm cyllideb annomestig ar gyfer 2021 o £1.65m wedi'i thorri i lawr i'r gyllideb gyfalaf o £1.37m a chyfraniad annomestig gan y cyflenwyr i'r gyllideb gweithredu sefydlog o £0.28m.

Y gyllideb annomestig	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4	CYLLIDEB 2021	CYLLIDEB 2020	AMRYWIAD	AMRYWIAD %
Datblygu creadigol	150,000	0	0	0	<b>150,000</b>	130,000	20,000	15%
Prynu cyfryngau	0	460,000	0	0	<b>460,000</b>	400,000	60,000	15%
Digidol	110,000	0	0	0	<b>110,000</b>	170,000	(60,000)	-35%
Partneriaethau Marchnata	30,000	80,000	0	110,000	<b>220,000</b>	250,000	(30,000)	-12%
<b>Is-gyfanswm marchnata</b>	<b>290,000</b>	<b>540,000</b>	<b>0</b>	<b>110,000</b>	<b>940,000</b>	950,000	(10,000)	-1%
Materion Cyhoeddus	5,000	10,000	5,000	5,000	<b>25,000</b>	40,000	(15,000)	-38%
PR	162,500	12,500	112,500	12,500	<b>300,000</b>	300,000	0	0%
<b>Is-gyfanswm cyfathrebu</b>	<b>167,500</b>	<b>22,500</b>	<b>117,500</b>	<b>17,500</b>	<b>325,000</b>	340,000	(15,000)	-4%
Mewnwelediad	60,000	25,000	0	20,000	<b>105,000</b>	70,000	35,000	50%
<b>Is-gyfanswm Strategaeth a Mewnwelediad</b>	<b>60,000</b>	<b>25,000</b>	<b>0</b>	<b>20,000</b>	<b>105,000</b>	<b>70,000</b>	<b>35,000</b>	<b>50%</b>
<b>Cyfanswm costau cyfalaf</b>	<b>517,500</b>	<b>587,500</b>	<b>117,500</b>	<b>147,500</b>	<b>1,370,000</b>	<b>1,360,000</b>	<b>10,000</b>	<b>0</b>
Aiddryniad cyllid a gweithrediadau*	105,570	119,850	23,970	30,090	<b>279,480</b>	306,000	(26,520)	-9%
<b>Cyfanswm costau gweithredu sefydlog</b>	<b>105,570</b>	<b>119,850</b>	<b>23,970</b>	<b>30,090</b>	<b>279,480</b>	306,000	(26,520)	(0)
<b>Cyfanswm</b>	<b>623,070</b>	<b>707,350</b>	<b>141,470</b>	<b>177,590</b>	<b>1,649,480</b>	1,666,000	(16,520)	(0)

\*Fel yn 2020, defnyddiodd y dyraniad costau cyffredinol uchod y gymhareb rhwng costau cyfalaf a chostau gweithredu sefydlog yn yr ymgyrch ddomestig.



**Ynni  
Clyfar** GB

Ymunwch â'r  
chwyldro tawel